ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Ganllawiau drafft gwrth-fwlio'

## Gweithdy 1:
## Adroddiad ar ddysgwyr ysgolion uwchradd

Tachwedd 2018

© Hawlfraint y Goron 2019
WG37978 ISBN digidol 978 1 83876 331 2

# Cynnwys


| Adran | Rhif tudalen |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad i'r ymgynghoriad** | **3** |
| **2. Am Dynamix** | **3** |
| **3. Crynodeb** | **4** |
| **4. Dulliau** | **6** |
| **5. Canlyniadau** | **10** |
| Q1+Q2 esbonio'n Glir? / Hawdd eu deall? | 10 |
| Q3 Canllawiau yn ymgysylltu gydag asiantaethau cefnogi | 12 |
| Q4 Oes unrhyw beth ar goll? | 12 |
| Q5 Pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau? | 13 |
| Q6 Pa enw ydych chi'n ei ffafrio ar gyfer y canllawiau newydd? | 14 |
| Q7 Effaith ar y Gymraeg | 15 |
| Q8 Unrhyw beth arall hoffech ei ddweud? | 16 |
| **6. Themâu** | **18** |

# 1. Cyflwyniad i'r ymgynghoriad

Mae Llywodraeth Cymru yn diweddaru ei ganllawiau gwrth-fwlio, a gafodd eu cyhoeddi yn 2011. Cafodd y canllawiau drafft ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 14 Tachwedd 2018 a 15 Ionawr 2019. Fel rhan o'r ymgynghoriad, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfres o weithdai rhanbarthol gyda hapddalwyr allweddol a phlant a phobl ifanc er mwyn casglu adborth ar y canllawiau drafft. Fel rhan o'r ymgynghoriad gofynnodd Llywodraeth Cymru i Dynamix ddarparu sesiynau hwyluso annibynnol mewn dau weithdy. Cynhaliwyd un gweithdy yng Ngogledd Cymru, gyda disgyblion ysgolion uwchradd, a'r digwyddiad arall yn Ne Cymru gyda disgyblion ysgolion cynradd.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y canlyniadau o'r gweithdai a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2018 gyda 32 o ddisgyblion ysgol uwchradd yng Ngogledd Cymru. Roedd y dysgwyr rhwng 13-18 oed ac yn cynrychioli tair ysgol ar draws awdurdod lleol Wrecsam.

Gan ddefnyddio'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad ffurfiol fel sail ar gyfer trafodaeth, gofynnodd Dynamix gyfres o gwestiynau i'r plant a phobl ifanc a fynychodd y gweithdai er mwyn casglu eu sylwadau a'u barn ar y canllawiau drafft mewn ffordd gyfranogol a chyffrous.

Fe wnaeth y Gweinidog dros Addysg, Kirsty Williams AS, fynychu'r gweithdy er mwyn darparu trosolwg o'r canllawiau yr ymgynghorir arno ac i gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb gyda chyfranogwyr o ran bwlio mewn ysgolion.

# 2. Am Dynamix

Mae Dynamix yn fenter gymdeithasol Gymreig sydd yn darparu addysg ac yn arbenigo mewn rhoi llais i bobl gan ddefnyddio dulliau cyfranogol i gymryd rhan mewn ffordd gynhwysol.

Mae Dynamix yn defnyddio gweithgareddau ymgynghorol, cyfranogol i sicrhau bod cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn gallu rhannu eu barn. Defnyddir ystod o dechnegau er mwyn ystyried anghenion pawb ar ffyrdd gwahanol o roi barn, boed hynny yn gorfforol, gweledol, ar lafar neu yn ysgrifenedig. Mae hyn yn golygu bod cyfranogwyr yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddigon hyderus i gymryd rhan yn llawn yn y profiad gan ddefnyddio ymgynghoriad wedi ei hwyluso, i deimlo'n gynwysedig ac i wybod bod eu barn a'u sylwadau yn cyfri ac yn cael eu hystyried.

Caiff gwybodaeth ei gasglu mewn ffyrdd ansafonol ac felly nid yw dadansoddiad ystadegol yn addas. Yn hytrach mae'n cynnig naratif ansoddol gyfoethog, dealltwriaeth ddefnyddiol a gwybodaeth werthfawr, a phrofiad cadarnhaol i'r rheiny sydd yn cymryd rhan.

Mae methodoleg Dynamix yn cael ei ategu gan ein gwerthoedd o ymrwymiad drwy gyfranogiad a mwynhad, parch, cynhwysiad, cydweithredu a grymuso ynghyd a'r

gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol. Mae Dynamix hefyd yn eiriolwr cryf o'r 12 Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu Gyda'r Cyhoedd[1] a'r 7 Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc[2].

# 3. Crynodeb

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb o'r canlyniadau o'r 8 cwestiwn a ofynnwyd i'r cyfranogwyr yn ystod y gweithdai. Gellir gweld y canlyniadau llawn, y sylwadau a'r canfyddiadau o dudalen 10 ymlaen.

**Cwestiwn 1: A yw'r canllawiau drafft gwrth-fwlio wedi eu hesbonio'n glir?**

| **Opsiynau** | **Canran pleidlais** |
|---|---|
| Ydyn, maent wedi eu hesbonio'n glir | 80% |
| Na, nid ydynt yn glir | 0 |
| Ddim yn siŵr / Mae'n 'OK' | 20% |

**Cwestiwn 2: A yw'r canllawiau drafft gwrth-fwlio yn hawdd eu deall?**

| **Opsiynau** | **Canran pleidlais** |
|---|---|
| Ydyn, maent yn hawdd eu deall | 80% |
| Na, nid ydynt yn hawdd eu deall | 0% |
| Ddim yn siŵr / Mae'n 'OK' | 20% |

**Cwestiwn 3: A yw'r canllawiau gwrth-fwlio drafft yn ymgysylltu gyda phrosiectau eraill rydych chi'n gwybod amdanynt sydd yn cefnogi plant a phobl ifanc?**

| YDYN | NA | DDIM YN SIŴR |
|---|---|---|
| Childline x 12<br>CAHMS[3] x 2<br>Plant Mewn Angen x 1<br>Meic x 2<br>CEOP[4] x 2<br>NSPCC[5] x 1<br>Tîm Pêl-droed x 1 | Siop Wybodaeth Wrecsam x 1<br>Sap x 1<br>Rhan fwyaf o'r gweddill (nid Childline) x 1 | Plant Mewn Angen x 1<br>Y Siop Wybodaeth x 1<br>Hwb x 1<br>Hafan Y Cymru x 1 |

**Cwestiwn 4. Oes unrhyw beth ar goll y dylai gael ei ychwanegu?**

Detholiad o sylwadau gan gyfranogwyr

[1] https://participation.cymru/en/principles/
[2] http://www.childreninwales.org.uk/our-work/participation/participation-standards/
[3] Child and adolescent mental health services
[4] Child Exploitation and Online Protection Command
[5] National Society for the Prevention of Cruelty to Children

- ☐ *"Dangos yr effaith, gall achosi iselder, anhwylderau bwyta, pryder, hunanladdiad"*
- ☐ *"Mwy o ddewis o linellau ffôn/llefydd all gynnig cymorth"*
- ☐ *"Mwy o wybodaeth ar sut i ddelio gydag ef eich hun"*
- ☐ *"Cefnogaeth i'r bwli gael darganfod pam ei bod yn ei wneud a p'un ai ei bod angen cymorth gyda rhywbeth"*
- ☐ *"Mwy o anogaeth i wrthsefyll yn erbyn bwlis"*
- ☐ *"Sut mae dioddefwyr a'r bwlis yn cael eu cefnogi?"*
- ☐ *"Rhowch rym i rywun er mwyn rhoi'r gorau iddo cyn iddo ddechrau"*
- ☐ *"Diffiniwch droseddau casineb, LGBTQ, effeithiau, cysylltiadau i gymorth"*
- ☐ *"Addysgu rhieni a rhieni i addysgu plant"*
- ☐ *"Adran i'w bwlis er mwyn gwneud iddynt ddeall sut mae'r dioddefwr yn teimlo"*
- ☐ *"Adnabod problemau sydd cael eu hachosi gan fwlio a sut mae modd delio â nhw."*

## Cwestiwn 5. Pa mor ddefnyddiol ydych chi'n credu yw'r canllawiau drafft?

Canlyniadau a detholiad o sylwadau

| | **Sylwadau** | **% o'r bleidlais** |
|---|---|---|
| **Defnyddiol iawn** | ☐ *"Mae'n dda iawn ac yn drylwyr. Canllaw defnyddiol"*<br>☐ *"Defnyddiol iawn ond efallai bod angen ei fyrhau fel nad yw'n mynd ymlaen gymaint, hefyd ychwanegu effeithiau hirdymor bwlio"*<br>☐ *"Defnyddiol i ddangos i bobl beth yw bwlio"*<br>☐ *"Didwyll"* | **42%** |
| **Defnyddiol** | ☐ *"Eithaf defnyddiol, hawdd ei ddeall"*<br>☐ *"Gobeithio bydd y canllawiau yn agor llygaid pobl er mwyn gwrthsefyll bwlio"*<br>☐ *"Defnyddiol ac i'r pwynt ond gellir ei fyrhau ychydig."*<br>☐ *"Mae pethau yn newid o'r diwedd ac yn dod yn gliriach"*<br>☐ *"Gallai'r newidiadau effeithio ar filiynau!"* | **24%** |
| **Ddim yn siŵr** | ☐ *"Efallai y bydd, neu efallai ni fydd yn cael effaith ar fwlio"*<br>☐ *"Angen mwy o sylw"* | **15%** |
| **Ddim yn ddefnyddiol iawn** | ☐ *"Ni yw o reidrwydd yn stopio bwlio"*<br>☐ *"Mae llawer ohono yn cael ei ddysgu'n barod yn yr ysgol, mewn gwersi ABCh"*<br>☐ *"Bydd y mwyafrif o bobl ddim yn ei weld"* | **19%** |
| **Ddim yn ddefnyddiol** | | |

## Cwestiwn 6: Pa rhai o'r enwau yma y byddech yn eu hoffi ar gyfer y canllawiau

**gwrth-fwlio newydd?**

| Opsiynau | Pleidlais% | Trefn |
|---|---|---|
| "Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a threchu bwlio" | **36%** | **1** |
| "Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a herio bwlio | **28%** | **2** |
| "Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb: Atal a threchu bwlio | **14%** | **3** |
| "Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb: Atal a herio bwlio" | **13%** | **4** |
| Dim un o'r uchod | **9%** | **5** |

**Cwestiwn 7: Yn eich barn chi, pa effaith bydd y canllawiau drafft yn eu cael ar y Gymraeg?**

| **Opsiwn** | **Ymatebion%** |
|---|---|
| Effaith gadarnhaol | 24% |
| Effaith negyddol | 0% |
| Ddim yn siŵr o'r effaith | 76% |

**Cwestiwn 8: Oes unrhyw beth arall hoffech ei ddweud?**

Detholiad o sylwadau:

- ☐ *"Rwy'n gobeithio bydd y canllawiau yma yn rhoi'r gorau ar anghydraddoldeb yn yr ysgol, yn enwedig tuag at LGBTQ+"*
- ☐ *"Rwy'n gobeithio bydd pobl yn fwy agored i drafod os ydynt yn cael eu bwlio"*
- ☐ *"Rwy'n gobeithio bydd; - gwneud i bobl deimlo yn fwy cyfforddus yn yr ysgol"*
- ☐ *"A fydd wir yn welliant ar y polisi blaenorol?"*
- ☐ *"Efallai bydd angen mwy o hysbysebu, ddim yn gwybod am wasanaethau cefnogi, dim ond Childline/NSPCC"*
- ☐ *"Rwy'n gobeithio bydd y canllawiau yn annog mwy o bobl i godi eu llais"*
- ☐ *"Rwy'n gobeithio bydd y ddogfen yn un grymus i'w darllen, ac felly yn caniatáu gwybodaeth a dealltwriaeth well i'r rheiny fydd yn derbyn y llyfr"*
- ☐ *"Beth sydd gan fwlio i'w wneud â'r Gymraeg?*

# 4. Dulliau

Defnyddiodd Dynamix ystod o ddulliau ymgynghori cyfranogol a rhyngweithiol i gasglu barn y mynychwyr ar y cwestiynau ymgynghoriad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Isod mae esboniad byr o bob un o'r dulliau a ddefnyddiwyd a'r rhesymeg tros eu defnyddio.

**Cwestiwn 1: A yw'r canllawiau wedi eu hesbonio'n glir**
**Cwestiwn 2: A yw'r canllawiau yn hawdd eu deall**

**Dull:** Targed Dot



Ar gyfer y cwestiynau yma gofynnwyd i'r mynychwyr osod sticer ar y targedau yn unol â'u hymatebion.

Gan ddibynnu ar eu barn …

- Roedd y canllawiau drafft yn glir, byddent yn gosod eu sticer ar y **Gwyrdd**
- Nid oedd y canllawiau drafft yn glir, byddent yn gosod y sticer ar y **Coch**
- Os nad oeddent yn siŵr byddent yn gosod eu sticer ar y **Melyn**

**Cwestiwn 3: A yw'r canllawiau drafft gwrth-fwlio yn ymgysylltu gyda phrosiectau eraill rydych chi'n gwybod amdanynt sydd yn cefnogi plant a phobl ifanc?**

**Dull:** Siart Dwylo Cefnogol




Ar gyfer y gweithgaredd hwn gofynnom i'r cyfranogwyr feddwl am asiantaethau neu brosiectau sydd yn helpu neu yn cefnogi plant a phobl ifanc, ac yna gofynnom a ydynt yn meddwl fod y canllawiau drafft gwrth-fwlio yn ymgysylltu gyda'r gwasanaethau hynny. Gofynnom i'r mynychwyr ysgrifennu enwau'r gwasanaethau ar y dwylo cefnogol a'i gosod ar y bwrdd gyda:

- Ydyn - yn ymgysylltu â'r canllawiau
- Na – ddim yn ymgysylltu â'r canllawiau
- Ddim yn siŵr - ddim yn siŵr os yw'n ymgysylltu â'r canllawiau



**Cwestiwn 4: Oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau?**

Dull: Wal Graffiti




Ar gyfer y cwestiwn hwn fe ofynnom i'r mynychwyr i dynnu llun, ysgrifennu neu sgriblan ar y 'Wal Graffiti'.

Gofynnom i'r mynychwyr os oes unrhyw beth ar goll o'r canllawiau drafft? Ysgrifennon nhw eu sylwadau ar y wal graffiti.

Rydym yn aml yn defnyddio'r dull hwn fel ffordd o ganiatáu mynychwyr i fod yn 'greadigol' gydag unrhyw sylwadau ychwanegol.

**Cwestiwn 5: Pa mor ddefnyddiol ydych chi'n teimlo yw’r canllawiau drafft?**




Dull: Thermomedr

Ar gyfer y cwestiwn hwn gofynnom i’r cyfranogwyr drefnu pa mor ddefnyddiol yw’r canllawiau arfaethedig ar raddfa o annefnyddiol i ddefnyddiol iawn.

Gofynnom i’r dysgwyr osod nodyn post-it ar y thermomedr yn yr adran briodol. Cawsant hefyd gyfle i ysgrifennu unrhyw sylwadau ychwanegol ar eu post-it, naill ai gyda sylwadau cyffredinol neu ffyrdd mwy penodol o wneud y canllawiau arfaethedig yn fwy defnyddiol.

Rydym yn aml yn defnyddio’r math hwn o ddull i gasglu barn mewn ffordd fwy gweledol a diddorol. Mae’r dull hwn yn ein galluogi i gasglu barn gyffredinol y grŵp yn gyflym.

**Cwestiwn 6: Pa rhai o'r enwau yma y byddech yn eu hoffi ar gyfer y canllawiau gwrth-fwlio newydd?**


Dull: **Rho dy arian ar dy air**

Ar gyfer y gweithgaredd hwn roeddem eisiau i’r bobl ifanc bleidleisio ar eu dewisiadau ar gyfer enwau posib i’r canllawiau gwrth-fwlio.

Fe gafodd bawb pum pleidlais mewn ffurf 5 x 1c a rhoddwyd y cyfle iddynt

‘rhoi eu harian ar eu gair’.  Defnyddiwyd y ceiniogau i’w rhoi yn y potiau perthnasol.

Roedd modd iddynt rannu’r ceiniogau allan neu roi mwy nag un geiniog yn yr un pot.




**Cwestiwn 7: Yn eich barn chi, pa effaith bydd y canllawiau drafft yn eu cael ar y Gymraeg?**

Dull: Targed y Ddraig



Yn y gweithgaredd hwn gofynnom i’r mynychwyr ystyried a fyddai’r canllawiau drafft yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg.

Gofynnom iddynt osod seren ar y darn cyfatebol o’r faner Gymreig;

- **Gwyrdd** – bydd y canllawiau drafft yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg
- **Coch** – bydd y canllawiau drafft yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg
- **Gwyn** - ddim yn siŵr pa effaith bydd y canllawiau drafft yn eu cael ar y Gymraeg

**C8. Oes unrhyw beth arall hoffech ei ddweud?**




Dull: Gobeithion a Gofidiau

Ar gyfer y cwestiwn olaf gofynnom a oedd gan y cyfranogwyr unrhyw sylwadau pellach am y canllawiau drafft. Gofynnom hefyd a oedd ganddynt unrhyw Ddymuniadau neu Bryderon / Gobeithion a Gofidiau o ran y canllawiau. Rhoddwyd cyfle iddynt ysgrifennu unrhyw sylwadau ar ddarnau o bapur a'u gosod yn y bocsys 'Dymuniadau a Phryderon / Gobeithion a Gofidiau', felly yn sicrhau y byddai eu sylwadau yn gyfrinachol.

# 5. Canlyniadau

**Cwestiwn 1: A yw'r canllawiau wedi eu hesbonio'n glir?**
**& Cwestiwn 2: A yw'r canllawiau yn hawdd eu deall?**
**Dull: Targedau Dot**

Gofynnom i'r mynychwyr os oeddent yn teimlo bod y canllawiau drafft wedi eu cyflwyno mewn ffordd glir a hawdd eu deall. Gofynnwyd i'r mynychwyr osod sticer ar ein targed.

- ☐ **Gwyrdd** os oedd yn glir/hawdd ei ddeall
- ☐ **Melyn** os nad oeddent yn siŵr
- ☐ **Coch** os allai fod yn fwy clir/hawdd ei ddeall

| C1 - A yw'r canllawiau wedi eu hesbonio'n glir | | C2 - A yw'r canllawiau yn hawdd eu deall | |
|---|---|---|---|
| Ydyn | 80% | Ydyn | 80% |
| Ddim yn Siŵr | 20% | Ddim yn Siŵr | 20% |
| Na | 0% | Na | 0% |

## Casgliadau/Themâu

**Cwestiwn 1.**

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn teimlo bod y canllawiau drafft wedi eu hesbonio'n glir gydag 20% ddim yn siŵr o eglurder y canllawiau drafft. Nid oedd unrhyw un wedi dweud bod y canllawiau drafft yn aneglur.

**Cwestiwn 2.**

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn teimlo bod y canllawiau drafft yn hawdd ei ddeall gydag 20% ddim yn siŵr pa mor hawdd yr oedd i'w ddeall. Nid oedd unrhyw yn meddwl fod y canllawiau yn anodd eu deall.

**Pwyntiau Pwysig – Ar gyfer gwneud pethau yn glir ac yn hawdd eu deall**

Yn y gweithgaredd hwn gofynnom i'r mynychwyr rhoi eu hawgrymiadau gorau i ni ar sut i wneud y canllawiau drafft yn glir ac yn hawdd eu deall. Ein bwriad yw y bydd eu cyngor ac adborth yn galluogi Llywodraeth Cymru i greu canllawiau clir ac adnoddau sydd yn hawdd i ddefnyddwyr.

- ☐ *Cadw i'r pwynt*
- ☐ *Fideo cyflwyno ar gyfer rhai yn eu harddegau*
- ☐ *Cadw fel y mae!*
- ☐ *Gwneud y pwyntiau yn fwy penodol*
- ☐ *Yn syth i'r pwynt*
- ☐ *Ei osod fel poster*
- ☐ *Gwneud un canllaw sydd yn addas i bob oedran*
- ☐ *Delweddau neu dystiolaeth*
- ☐ *Lluniau i gadw diddordeb*
- ☐ *Storïau gan enwogion ar fwlio neu anffafriaeth*
- ☐ *Enwogion gallwn uniaethu â nhw*
- ☐ *Hawdd deall fersiwn byrrach*
- ☐ *Byr a syth i'r pwynt*
- ☐ *Yn berffaith yn barod*
- ☐ *Gwneud pwyntiau yn gryno ac yn hygyrch i'r rhan fwyaf o bobl*
- ☐ *Hawdd ei ddeall*
- ☐ *Byr a syml*
- ☐ *Mwy nag un iaith*
- ☐ *Wedi ei anelu tuag at gynulleidfa benodol, e.e. lluniau ayyb*
- ☐ *Hawdd ei ddeall*
- ☐ *Mwy o hysbysebu*

**Casgliadau/Themâu**

Roedd gan y grŵp syniadau clir ar sut i wneud y wybodaeth yn fwy agored i bawb, gan gynnwys;

- ☐ Cadw i'r pwynt
- ☐ defnyddio lluniau a delweddau
- ☐ Storïau gan enwogion gallwn uniaethu â nhw
- ☐ dewis gwahanol i wybodaeth ysgrifenedig, fel fideo
- ☐ gadael i bobl wybod amdano

**Cwestiwn 3. A yw'r canllawiau drafft yn ymgysylltu gyda'r asiantaethau cefnogol yma?**
**Dull: Siart Dwylo Cefnogol**

Ar gyfer y gweithgaredd hwn gofynnom i'r bobl ifanc feddwl am asiantaethau neu brosiectau sydd yn helpu neu yn cefnogi pobl ifanc. Yna gofynnom a ydynt yn meddwl fod y canllawiau drafft gwrth-fwlio yn ymgysylltu gyda'r gwasanaethau hynny.

- Ydyn - yn ymgysylltu â'r canllawiau drafft
- Na – ddim yn ymgysylltu â'r canllawiau drafft
- Ddim yn siŵr – ddim yn siŵr os yw'n ymgysylltu â'r canllawiau drafft

| YDYN | NA | DDIM YN SIŴR |
|---|---|---|
| Childline x 12<br>CAMHS x 2<br>Plant Mewn Angen x 1<br>Meic x 2<br>CEOP x 2<br>NSPCC x 1<br>Tîm Pêl-droed x 1 | Siop Wybodaeth Wrecsam x 1<br>Sap x 1 | Plant Mewn Angen x 1<br>Y Siop Wybodaeth x 1<br>Hwb x 1<br>Hafan Y Cymru x 1 |

**Casgliadau/Themâu**

Tra bod y cyrff cenedlaethol mwy o faint yn cael eu gweld yn gysylltiedig â'r canllawiau drafft, roedd mudiadau lleol yn cael eu gweld yn llai cysylltiedig gyda'r mater.

Childline oedd yr asiantaeth y soniwyd amdani fwyaf gyda thua hanner o'r cyfranogwyr yn ei henwi

Roedd rhai mynychwyr wedi cael trafferth yn meddwl am asiantaethau cefnogi ar gyfer plant a phobl ifanc, gwelir hyn drwy'r nifer cyfyngedig o asiantaethau a awgrymwyd

**Cwestiwn 4. Oes unrhyw beth ar goll y dylai gael ei gynnwys?**
**Dull: Wal Graffiti**

Yn y gweithgaredd hwn gofynnom i'r mynychwyr ychwanegu unrhyw beth roeddent yn teimlo oedd ar goll o'r canllawiau i'n 'Wal Graffiti' mawr. Roeddent yn gallu amlinellu unrhyw beth oedd ar goll a/neu beth fyddent yn hoffi gweld mwy ohono a/neu beth fyddai'n gwneud y canllawiau yn fwy effeithiol.

- ☐ *"Rhwystro bwlio cyn iddo ddigwydd!"*
- ☐ *"Mwy o anogaeth i wrthsefyll yn erbyn bwlis"*
- ☐ *"LGBTQ+"*
- ☐ *"Sut mae'r dioddefwyr a'r bwlis yn cael eu cefnogi?"*

- ☐ *“Rhowch rym i rywun er mwyn rhoi’r gorau iddo cyn iddo ddechrau”*
- ☐ *“Diffiniwch droseddau casineb, LGBTQ, effeithiau, cysylltiadau i gymorth”*
- ☐ *“Anffafriaeth”*
- ☐ *“Dangos yr effaith, gall achosi iselder, anhwylderau bwyta, pryder, hunanladdiad”*
- ☐ *“Os nad yw pobl yn siarad, gall effeithio ar eu haddysg oherwydd byddant yn mynd yn drist a ddim eisiau gwneud eu gorau.”*
- ☐ *“Hysbyseb dros wrth-fwlio”*
- ☐ *“Cyllid?  Faint? O ble mae’n dod?”*
- ☐ *“Sut mae rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys?”*
- ☐ *“Mwy o sesiynau galw-i-mewn gyda chynghorwyr”*
- ☐ *“Sut i gadw pobl rhag bwlio”*
- ☐ *“Mwy o ddewis o linellau ffôn/llefydd all gynnig cymorth”*
- ☐ *“Mwy o wybodaeth ar sut i ddelio gydag ef eich hun”*
- ☐ *“Cefnogaeth i’r bwli gael darganfod pam ei bod yn ei wneud a p’un ai ei bod angen cymorth gyda rhywbeth”*
- ☐ *“Addysgu rhieni a rhieni i addysgu plant”*
- ☐ *“Adran i’w bwlis er mwyn gwneud iddynt ddeall sut mae’r dioddefwr yn teimlo”*
- ☐ *“Adnabod problemau sydd cael eu hachosi gan fwlio a sut mae modd delio â nhw.”*

### Casgliadau/Themâu

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y dylai’r canllawiau drafft rhoi fwy o sylw i’r materion sydd yn achosi bwlio ac i bwysleisio beth gall pobl wneud os ydynt yn cael eu bwlio, a ffyrdd o roi grym iddynt ddelio gyda’r bwlio eu hunain.
Cafwyd rhai sylwadau yn sôn am gefnogi pobl sydd yn bwlio. Dangos effaith eu hymddygiad a ffyrdd o roi cefnogaeth iddynt gael delio gyda’u problemau er mwyn lleihau bwlio.
Roedd sylwadau penodol yn dweud y dylai’r canllawiau drafft ddangos sut y gall brwydro bwlio helpu i ddelio ag anffafriaeth. Teimlodd rhai cyfranogwyr y dylai’r canllawiau drafft sôn fwy am droseddau casineb a gwneud mwy i drafod y materion sydd yn wynebu pobl o’r gymuned LGBTQ+.

### Cwestiwn 5: Pa mor ddefnyddiol ydych chi'n teimlo yw’r canllawiau drafft?

### Dull: Thermomedr

Ar gyfer y gweithgaredd hwn gofynnom i’r bobl ifanc am eu barn ar ba mor ddefnyddiol y byddai’r canllawiau gwrth-fwlio.

| | Sylwadau | % o’r bleidlais |
|---|---|---|
| Defnyddiol iawn | ☐ *“Defnyddiol i ddangos i bobl beth yw bwlio”*<br>☐ *“Didwyll”*<br>☐ *“Rydym yn gwneud rhywbeth i ddelio gyda bwlio”*<br>☐ *“Mae’r canllaw yn haws ei ddilyn pan yn fyrrach”*<br>☐ *“Fersiwn byrrach, haws ei ddeall”*<br>☐ *“Mae’n dda iawn ac yn drylwyr. Canllaw defnyddiol”*<br>☐ *“Defnyddiol iawn ond efallai bod angen ei fyrhau fel nad yw’n mynd ymlaen gymaint, hefyd ychwanegu effeithiau hirdymor bwlio”* | 42% |

| | | |
|---|---|---|
| Defnyddiol | ☐ *"Hawdd ei ddeall"*<br>☐ *"Bydd y newidiadau yn effeithio ar filiynau!"*<br>☐ *"Mae'n amlinellu beth yw bwlio"*<br>☐ *"Eithaf defnyddiol, hawdd ei ddeall"*<br>☐ *"Gobeithio bydd y canllawiau yn agor llygaid pobl er mwyn gwrthsefyll bwlio"*<br>☐ *"Grêt i bobl ifanc mewn addysg, mwy o ffocws"*<br>☐ *"Defnyddiol ac i'r pwynt ond gellir ei fyrhau ychydig."*<br>☐ *"Mae pethau yn newid o'r diwedd ac yn dod yn gliriach"* | 24% |
| Ddim yn Siŵr | ☐ *"Efallai y bydd, neu efallai ni fydd yn cael effaith ar fwlio"*<br>☐ *"Angen mwy o sylw"*<br>☐ *"Mae'n ddefnyddiol"* | 15% |
| Ddim yn ddefnyddiol iawn | ☐ *"Rwy'n credu bod angen ar help ar y rhai sydd yn cael eu bwlio, gall fod yn anodd iddynt ofyn am help neu i godi'r canllaw"*<br>☐ *"Ni yw o reidrwydd yn stopio bwlio"*<br>☐ *"Mae llawer ohono yn cael ei ddysgu'n barod yn yr ysgol, mewn gwersi ABCh"*<br>☐ *"Bydd y mwyafrif o bobl ddim yn ei weld"* | 19% |
| Annefnyddiol | | |

**Casgliadau/Themâu**

Roedd 66% o'r cyfranogwyr yn teimlo'n gadarnhaol am ba mor ddefnyddiol fyddai'r canllawiau drafft. Gwnaeth rhai sylwadau am ba mor rhwydd roedd i'w ddeall, yn ogystal â bod yn ddefnyddiol ac yn hawdd ei ddilyn, ond y gallai fod yn fyrrach, yn enwedig i ddysgwyr iau.

O'r 34% arall oedd yn ansicr pa mor ddefnyddiol fyddai'r canllawiau drafft neu oedd ddim yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol iawn, roedd eu sylwadau yn dangos fod amheuaeth y byddai'n stopio bwlio a rhai yn poeni na fyddai pobl yn ei weld.

**Cwestiwn 6: Pa rhai o'r enwau yma y byddech yn eu hoffi ar gyfer y canllawiau gwrth-fwlio newydd?**

**Dull: Rho dy arian ar dy air**

Rhoddwyd cyfle i'r cyfranogwyr bleidleisio ar eu hoff enw ar gyfer y canllawiau gwrth-fwlio newydd. Rhoddwyr pum pleidlais i bob cyfranogwr (5x 1c) a gofynnwyd iddynt 'rhoi eu harian ar eu gair' gan ddefnyddio'r ceiniogau i bleidleisio. Roedd modd iddynt rannu'r ceiniogau allan neu roi mwy nag un geiniog yn yr un pot.

| Opsiynau | Pleidlais % |
|---|---|
| "Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a threchu bwlio" | **36%** |
| "Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a herio | **28%** |

| | |
|---|---|
| bwlio | |
| “Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb: Atal a threchu bwlio | **14%** |
| “Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb: Atal a herio bwlio” | **13%** |
| Dim un o’r isod - rhowch eich syniadau yn y bocs isod | **9%** |

**Teitlau eraill a awgrymwyd ar gyfer y canllawiau**
“HAWLIAU, PARCH, CYDRADDOLDEB: Herio Bwlio”

**Sylwadau ychwanegol:**

- *Mae’n llond ceg*
- *A yw fod yn grynodeb neu yn fachog? Oherwydd nid yw’n fachog iawn*
- *Angen bod mwy bachog - nid dieithrio pobl oherwydd y teitl hir*
- *Maen nhw’n hir iawn ond ydyn nhw*

**Casgliadau/Themâu**

Y dewis cyntaf oedd “Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a threchu bwlio”

gyda’r teitl tebyg

“Gwybod eich hawliau, dangos parch, bod yn gyfartal: Atal a herio bwlio
yn ail agos.

Roedd rhai beirniadaethau am hyd a chymhlethdod y teitlau. Dywedodd rhai y byddai’n elwa o fod yn fwy bachog.

**Cwestiwn 7: Yn eich barn chi, pa effaith bydd y canllawiau drafft yn eu cael ar y Gymraeg?**

**Dull: Targed y Ddraig**

Yn y weithgaredd hon gofynnom i’r mynychwyr ystyried a fyddai’r canllawiau drafft yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg. Rhoddwyd cyfle hefyd i gyfrannu sylwadau. Rhoddwyd dewis o dri ymateb posib:

- **Gwyrdd** – bydd y canllawiau drafft yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg
- **Coch** – bydd y canllawiau drafft yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg
- **Gwyn** - ddim yn siŵr pa effaith bydd y canllawiau drafft yn eu cael ar y Gymraeg

| **Opsiwn** | **Ymatebion** |
|---|---|
| Effaith gadarnhaol | 24% |
| Effaith negyddol | |
| Ddim yn siŵr | 76% |

**Casgliadau/Themâu**

Dywedodd y cyfranogwyr wrth Dynamix nad oeddent yn siŵr sut y byddai'r canllawiau drafft yn effeithio ar y Gymraeg, adlewyrchwyd hyn yn y canlyniadau lle'r oedd y mwyafrif o'r ymatebion (76%) wedi ymateb nad oeddent yn siŵr pa effaith y byddai'n ei gael ar y Gymraeg.

O'r rheiny dywedodd y byddai'n cael effaith ar y Gymraeg, dywedodd 24% y byddai'n effaith gadarnhaol. Mae'n bosib y byddai'r canlyniadau hyn wedi bod yn wahanol petai bobl ifanc o ysgolion Cymraeg wedi mynychu'r digwyddiad oherwydd byddai mwy o ddealltwriaeth a phrofiad ganddynt am y pwnc.

**Cwestiwn 8. Oes unrhyw beth arall hoffech ei ddweud?**

**Dull: Bocs Gobeithion a Gofidiau / Dymuniadau a Phryderon**

Ar gyfer y cwestiwn olaf gofynnom a oedd gan y bobl ifanc unrhyw sylwadau pellach am y canllawiau drafft. Gofynnom hefyd a oedd ganddynt unrhyw Ddymuniadau neu Bryderon / Gobeithion a Gofidiau o ran y canllawiau.

**Gobeithion/Dymuniadau**

- ☐ *"Rwy'n gobeithio bydd y canllawiau yma yn rhoi'r gorau ar anghydraddoldeb yn yr ysgol, yn enwedig tuag at LGBTQ+"*
- ☐ *"Gobeithio bydd yn cael ei hysbysebu"*
- ☐ *"Y bydd yn rhwystro bwlis rhag bwlio"*
- ☐ *"Mae'n fwy addas i blant, (gobeithio) gweld gwelliant da"*
- ☐ *"Rwy'n gobeithio bydd pobl yn fwy agored i drafod os ydynt yn cael eu bwlio"*
- ☐ *"Rwy'n gobeithio bydd; - gwneud i bobl deimlo yn fwy cyfforddus yn yr ysgol"*
- ☐ *"Y bydd bwlio yn cael ei gyfyngu"*
- ☐ *"Y bydd y canllawiau yn gweithio"*
- ☐ *"Bydd yn creu argraff ar bobl"*
- ☐ *"Rwy'n gobeithio bydd pethau'n newid a bydd pobl yn gwrando ar ei gilydd"*
- ☐ *"Bydd yn lleihau bwlio"*
- ☐ *"A fydd wir yn welliant ar y polisi blaenorol?"*
- ☐ *"Efallai bydd angen mwy o hysbysebu, ddim yn gwybod am wasanaethau cefnogi, dim ond Childline/NSPCC"*
- ☐ *"Gobeithio bydd yn lleihau bwlio fel bod pobl yn teimlo'n fwy diogel yn yr ysgol"*
- ☐ *"Rwy'n gobeithio bydd y canllawiau yn annog mwy o bobl i godi eu llais"*
- ☐ *"Rwy'n gobeithio bydd y ddogfen yn un grymus i'w darllen, ac felly yn caniatáu gwybodaeth a dealltwriaeth well i'r rheiny fydd yn derbyn y llyfr"*

**Gofidiau/Pryderon**

☐ *“Fydd e ddim yn gweithio, efallai bydd y bwlio yn parhau”*
☐ *“Efallai bydd neb yn gwrando arno. Bydd pobl yn ei anwybyddu”*
☐ *“Sut bydd yn cael ei drin gyda’r grwpiau oedran gwahanol?”*
☐ *“Fydd neb yn ei ddarllen ☹ ”*
☐ *“Fydd neb yn poeni”*
☐ *“Efallai bydd pobl yn amau’r llyfrynnau a ddim yn meddwl eu bod yn gallu helpu”*
☐ *“Bydd yn cael ei anwybyddu”*
☐ *“Bydd y canllawiau ddim yn gweithio”*

Unrhyw sylwadau ychwanegol:

☐ *“Oes ffordd o wybod pam bod bwlis yn gwneud hyn?”*
☐ *“Mae’n dweud o hyd mai’r “plentyn” yw’r dioddefwr ac y dylent fynd i weld “oedolyn” ond mae nifer o oedolion ifanc/oedolion yn cael eu bwlio. Angen ail-eirio?”*
☐ *“Os yw bwlio yn stopio, gallwn helpu pobl sydd ag effeithiau tymor hir”*
☐ *“Beth sydd gan fwlio i’w wneud â’r Gymraeg?”*
☐ *“Rwy’n credu na fydd yn cael ei hysbysebu ddigon”*
☐ *“Rhwystro pobl rhag bod yn berson creulon, o’r dechrau. Gwneud yn siŵr fod pobl ifanc/plant mewn llefydd positif”*
☐ *“Cael gwared ar grwpiau oedran - mae pawb yn cael eu bwlio”*
☐ *“Llai o iaith fygythiol e.e. “trechu a herio” - teitl mwy niwtral efallai e.e. Bwlio, Adfer Purdeb a Helpu”*
☐ *“Peidiwch poeni, byddwch yn wahanol”*

**Casgliadau/Themâu**

Roedd y bobl ifanc yn teimlo’n gryf dros y materion yn ymwneud â bwlio ac eisiau i ysgolion fod yn ardaloedd heb fwlio. Er hynny, roeddent yn amheus a fyddai pethau yn newid yn gyflym o ganlyniad i’r llyfryn neu lais y dysgwr.

Roedd gobaith mawr y byddai’r canllawiau drafft yn cael effaith gadarnhaol ar fwlio mewn ysgolion ac yn mynd rhyw faint o’r ffordd tuag at leihau’r materion sydd yn wynebu pobl sydd wedi bod yn ddioddefwyr o fwlio.

Roedd hefyd gobaith mawr y byddai’r canllawiau drafft yn herio anffafriaeth o bob math ac yn benodol rheiny sydd yn wynebu pobl o’r cymunedau LGBTQ+.

Roedd y mwyafrif o’r bobl ifanc yn teimlo bod y canllawiau drafft yn cymryd cam yn y cyfeiriad cywir ond yn poeni na fyddai digon o bobl yn gwybod am y ddogfen, y byddai’r canllawiau drafft yn cael effaith bach iawn neu *“fydd neb yn ei*

*ddarllen"/"fydd neb yn poeni".* Teimlodd nifer fod angen ymgyrch hysbysebu cadarnhaol er mwyn lledaenu'r neges.

Cafwyd rhai sylwadau yn edrych ar ganfod y rhesymau dros ymddygiad bwlio, bod oedolion yn ddioddefwyr o fwlio hefyd a sut mae bwlio yn gallu creu effeithiau hir dymor.

# 6. Themâu

Hawdd ei ddefnyddio/mynediad: Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod y canllawiau yn eithaf clir ac yn hawdd eu deall ond yn amlinellu y byddai'n fwy deniadol i ddarllenwyr ifanc.

Lledaenu'r neges: Cafodd y syniad o greu ffurfiau gwahanol ei grybwyll, roedd teimlad y byddai ffurfiau eraill yn gallu gwneud i'r canllawiau fod yn fwy hygyrch ac yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio.

Roedd nifer yn teimlo bod y canllawiau yn bwydo mewn i asiantaethau cefnogi mawr (Childline, NSPCC) ond roedd rhai yn ei chael yn anodd meddwl am asiantaethau cefnogi eraill ac felly ddim yn siŵr sut byddai modd lledaenu'r neges iddyn nhw. Efallai byddai'n ddefnyddiol i gynnig esiamplau o asiantaethau cefnogi eraill ar gyfer plant a phobl ifanc fel ffordd o wella rhwydwaith cefnogi plant a phobl ifanc.

Gobeithion ar gyfer y canllawiau: Mae gobaith mawr y bydd y canllawiau yn cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol a'r amgylchedd dysgu. Ni chafodd y cyfranogwyr unrhyw drafferth yn adnabod y materion sydd yn cael eu hachosi gan fwlio ac roeddent yn teimlo y byddai'r canllawiau yn gallu cael effaith gadarnhaol '*ar filiynau*'. Roedd gobaith y byddai'n helpu i drechu anffafriaeth mewn ysgolion a chreu amgylchedd mwy croesawgar.

Serch hynny, roedd teimladau cryf ar y pwnc hwn gyda rhai yn amau y byddai'r canllawiau yma yn lleihau neu drechu bwlio. Er ei fod yn gam yn y cyfeiriad cywir, roedd rhai yn poeni na fyddai pobl yn cymryd sylw o'r canllawiau neu na fydd yn gweithio.

Teitl y canllawiau: Er bod y bobl ifanc yn hoff o ddau o'r teitlau a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd rai yn teimlo fod yr opsiynau a gynigiwyd yn rhy hir neu yn defnyddio iaith nad oedd yn mynd i apelio at grwpiau oedran llai.

Beth sydd ar goll? Roedd rhai pobl ifanc yn teimlo bod angen i'r canllawiau wneud mwy i dynnu sylw at y materion sydd yn cael eu hachosi gan fwlio a dangos sut gall dioddefwyr bwlio gael mynediad at gymorth. Teimlodd rhai ei fod hefyd fod yn bwysig tynnu sylw at beth all bobl ei wneud os ydynt yn cael eu bwlio a sut i rymuso eu hunain er mwyn delio gyda'r bwlio.

Cafwyd hefyd rhai sylwadau ynghylch cefnogi'r rhai sydd yn bwlio a chanfod y rhesymau maent yn bwlio. Dangos effaith eu hymddygiad a ffyrdd o dderbyn cymorth er mwyn delio gyda'u problemau, yn y gobaith o leihau bwlio ymhellach.